Ar hyn o bryd, does dim modd i rai pobl gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw, er enghraift oherwydd ble y maen nhw'n byw neu eu hoedran. Mae dull mwy cydgysylltiedig o reoli gwasanaethau, ac mae angen i gymorth fod ar gael ar draws y ddinas i bawb sydd ei angen.



Gyda llai o gyllid ar gael a'r angen am ddull mwy cydgysylltiedig, mae'r Cyngor yn cynnig darparu a chydlynwyr gwasanaethau cyflogaeth yn uniongyrchol ledled y Ddinas. Bydd y gwasanaeth ar gael i bawb sydd ei angen. Byddai'r gwasanaethau newydd yn cael eu darparu drwy ein rhwydwaith o Hybiau Cymunedol ac o adeiladau cymunedol eraill.

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig?

Cytunodd fwy na phedwar o bob pum ymatebwr (82%) â chynnig y Cyngor i ddarparu a chydlynwyr gwasanaethau cyflogaeth yn uniongyrchol ledled y Ddinas. Dim ond 6% anghytunodd.




Gwahoddwyd lleiafswm yr ymatebwyr a nododd nad oeddent yn cytuno â'r cynnig i egluro pam. Derbyniwyd chwe deg dau o ymatebion a'u pryderon yn canolbwytio ar nifer fach o bwyntiau:

- ❖ Na ddylai'r Cyngor ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer unigolion.
- ❖ Y bydd darpariaeth gwasanaeth yn dod yn fwy cyffredinol yn hytrach nag arbenigol o dan y cynnig.
- ❖ Bod yr hybiau cymunedol yn lleoliadau anfoddhaol. Roedd y rhesymau a nodwyd am hyn yn cynnwys; dosbarthiad daearyddol, costau teithio, anabledd, Hybiau'n cael eu hystyried yn rhy brysur a diffyg preifatrwydd a'r gallu i nodi ac ymddiried yn y Cyngor.
- ❖ Y dylid datganoli gwasanaethau mewn un lleoliad e.e. y Llyfrgell Ganolog yn hytrach na wedi'u gwasgaru ar draws y ddinas.


Mae'r Cyngor o'r farn bod angen porth syml i gyfeirio pobl at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i weithio eto. Ydych chi'n cytuno y byddai hyn yn helpu?

Cytunodd mwy na naw o bob deg o ymatebwyr (92%) fod angen porth syml i gyfeirio pobl at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i weithio eto. Dim ond 3% anghytunodd.



Beth ydych chi'n credu y dylai fod yn rhan o'r porth hwn?

Rhoddwyd rhestr o ddewisiadau i ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt nodi pa rai a ddylai fod yn rhan o'r porth yn eu barn nhw i gyfeirio pobl at wasanaethau perthnasol. Yr ymatebion mwyaf poblogaidd oedd 'Cyswllt wyneb yn wyneb' (84%), 'Gwefan yn rhoi gwybodaeth ar y cymorth ar gael' (79%), 'Llinell gymorth' (75%) a 'Chlybiau swyddi lleol' (68%)



Un Pwynt
Mynediad




Pa fath o gymorth cyflogaeth sydd ei angen yn eich barn chi i helpu pobl i mewn i waith a pha rai byddech chi'n eu defnyddio?

Y mathau o gymorth yr oedd ymatebwyr o'r farn yr oedd eu hangen fwyaf i helpu pobl yn ôl i waith:

- Clybiau Swyddi Lleol (85%)
- Cyfleoedd prentisiaethau (75%)
- Cyngor gyrafaol (75%)
- Lleoliadau Profiad Gwaith (73%)
- Cyrsiau hyfforddi bach (72%).

Pan ofynnwyd iddynt ba un y byddai diddordeb ganddynt yn eu defnyddio eu hunain, y dewisiadau mwyaf poblogaidd oedd:

- Cyrsiau hyfforddi byr (33%).
- Cyngor gyrafaol (31%)
- Clybiau Swyddi Lleol (29%)
- Hyfforddiant lleol (26%)
- Cyfleoedd Gwirfoddoli (26%).




Hefyd, rhoddwyd y cyfle i'r rhai hynny a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg i rannu a oedd unrhyw beth ychwanegol a allai fod o fudd i'r rhai hynny sy'n ceisio gwaith. Cafwyd 49 o ymatebion i gyd. Roedd y rhain yn amrywio, a rhai yn cyfeirio at agweddu ar y dewisiadau a roddwyd o'r blaen. Roedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys:

- Cryfhau cysylltiadau â busnesau a cholegau lleol
- Sicrwydd o gyfweliad i bobl leol ar gyfer swyddi lleol
- Help gyda sgiliau cyfweld
- Cymorth i'r rhai hynny ag anabledd
- Hyfforddiant yn y Gymraeg

Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig bod sefydliadau cymunedol yn parhau i ddarparu rhai gwasanaethau yn ymwneud â chyflogaeth?

Roedd ychydig dros hanner o ymatebwyr (56%) o'r farn ei bod hi'n bwysig i sefydliadau cymunedol ddarparu gwasanaeth yn ymwneud â chyflogaeth.



Gofynnwyd i'r rhai hynny a ymatebodd 'ydw' i nodi pa wasanaethau yr oeddent o'r farn y caint eu darparu orau gan sefydliad cymunedol lleol.

Derbyniwyd mwy na 300 o sylwadau ar wahân a chyfeiriwyd at fwy na 20 o wasanaethau ar wahân. Pan fo'n bosibl, nodwyd grwpiau cyffredinol gyda gwasanaethau yn ymwneud â Chymorth Iechyd Meddwl, Lleoliadau Gwaith a Gwirfoddoli yn ddewisiadau poblogaidd.


- Clybiau Swyddi Lleol (34%)
- Cyfleoedd hyfforddiant lleol (22%)
- Gwasanaethau cymorth cyflogaeth (16%)
- Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill/ Sgiliau Sylfaenol (45%)
- Cyfleoedd Gwirfoddoli (13%).
- Gwasanaethau cymorth Iechyd Meddwl (13%)

2. Meithrin Cymunedau Gwydn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben fis Mawrth 2018. Yn rhan o'r arolwg hwn, roedd Cyngor Caerdydd eisiau clywed gan y rhai hynny a fu'n rhan o'r rhaglen a sut yn eu barn nhw y gallai'r newid hwn effeithio arnyn nhw a'u cymuned leol.

Ydych chi'n ymwybodol o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf/wedi'i defnyddio?

O'r 1596 o bobl yn cymryd rhan yn yr arolwg hwn, atebodd 1,131 y cwestiwn hwn. O'r rhain, nododd 573 (51%) o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.



Nododd cyfanswm o 235 o ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn Project Gweithgarwch Cymunedau yn Gyntaf o'r blaen.

Mae'r nifer hwn gyfystyr â dim ond 15% o'r rhai hynny a neilltuodd amser i lenwi'r arolwg.

Rhybudd Iechyd: *Yn ystod y cyfnod ymgynghori, daeth yn fwyfwy amlwg i swyddogion fod ymatebwyr yn aml yn ansicr o ba elfennau o weithgarwch a ariannwyd neu a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Cymunedau yn Gyntaf.*


Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y nifer fach o bobl a soniodd eu bod yn rhan o project neu weithgarwch ar ôl nodi eu bod yn ymwybodol o Cymunedau yn Gyntaf.

Tynnwyd sylw at yr un mater yng nghanfyddiadau'r Grwpiau Ffocws.

Ym mha ardal Cymunedau yn Gyntaf y cawsoch chi gymorth?

Gofynnwyd i ymatebwyr a gymerodd ran mewn Rhaglen neu Weithgarwch Cymunedau yn Gyntaf ym mha ardal y gwnaethant dderbyn cymorth.

(Roedd modd i ymatebwyr roi tic ar gyfer mwy nag un ardal)




Rhybudd Iechyd: Yn y cwestiwn hwn, nodwyd ymatebwyr yn dal yn ansicr pa weithgareddau a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Cymunedau yn Gyntaf.

Beth rydych chi wedi'i wneud...

Y Projectau neu Weithgareddau yr oedd ymatebwyr fwyaf tebygol o nodi eu bod wedi cymryd rhan ynddynt oedd 'Hyfforddiant neu Ddysgu Cymunedol' (41%), 'Cyfleoedd Gwirfoddoli/Credydau Amser' (38%) a 'Chymorth i gael swydd neu gymhwyster' (37%). Cafodd yr un gwasanaethau eu nodi hefyd pan ofynnwyd i ymatebwyr pa projectau neu weithgareddau oedd fwyaf gwerthfawr iddynt.

Pa projectau neu weithgareddau Cymunedau yn Gyntaf ydych chi wedi bod yn rhan ohonynt, ac a oedd fwyaf o werth i chi?

Sylfaen: 235



Pa projectau neu weithgareddau Cymunedau yn Gyntaf ydych chi wedi bod yn rhan ohonynt?

Pa rai o'r projectau hyn oedd fwyaf o werth i chi?


Gofynnwyd i ymatebwyr egluro pam y bu'r project neu'r gweithgarwch penodol hwn mor bwysig iddynt. Mae gwirfoddoli, iechyd a lles, magu hyder, gwella sgiliau, ennill cymhwyster neu swydd a mynediad at rwydweithiau cymdeithasol yn cael eu crybwyllyn gyson yn yr adran sylwadau.

Pwysleisiodd ymatebwyr yn gryf sut y gwnaeth y rhaglen eu helpu nhw fel unigolyn i wneud newid neu gael mynediad at gymorth yn eu cymunedau. Isod y mae'r gweithgareddau a'r projectau a nodwyd gan bobl fel y rhai pwysicaf iddynt ynghyd â detholiad o'r sylwadau a wnaed.

Project	Rhif	Sylwadau
Projectau lechyd Meddwl a Lles	46	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Maent (STAR) yn cynnig dull holistaidd tuag at gefnogi unigolion, gan leihau allgau cymdeithasol, magu hyder a gwella sgiliau. Maent wirioneddol yn dod i adnabod yr unigolyn a'r hyn y mae ei angen a'r hyn y gall ei gyflawni.</i> • <i>Gwnaeth fy helpu i ennill y sgiliau a'r profiad yn ogystal â'r hyder i sefydlu fy musnes fy hun a helpu i wirfoddoli yn y gymuned.</i> • <i>Cwrdd ag aelodau cymunedol eraill a gwneud ffrindiau er mwyn bod yn llai ynysig a gadael fy nhŷ yn amlach. Staff hynod gyfeillgar sydd bob amser yn barod eu cymwynas.</i> • <i>Mae'n cynnig rhywle i bobl unig a llai breintiedig fynd iddo hyd yn oed os yw hynny ond am sgwrs</i> • <i>Gwnaeth fy helpu gyda'm hyder, cyswllt cymdeithasol a gwella fy lles</i>
Cymorth i ennill swydd neu gymhwyster	37	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Trawsnewidiodd fy mywyd er gwell. Rwyf bellach wedi fy ngrymuso ac mewn gwaith</i> • <i>Rhoddwyd sgiliau i mi gael swydd a'm helpu i fagu hyder wrth weithio â phobl</i>
Hyfforddiant neu Ddysgu Cymunedol	32	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Lleol, rhestrau aros byr/dim rhestrau aros, dull hyblyg o ran apwyntiadau a chyllid ar gyfer hyfforddiant</i> • <i>Gwnaeth fy helpu i ennill y sgiliau a'r profiad yn ogystal â'r hyder i sefydlu fy musnes fy hun a helpu i wirfoddoli yn y gymuned.</i> • <i>Nid wyf yn ddigartref mwyach, rwy'n cael cymorth â bwyd, budd-daliadau gofal plant a lleoliad gwaith gwirfoddoli er mwyn helpu i ddod o hyd i swydd</i> • <i>Yn dilyn mwy na 38 mlynedd o fod mewn swyddfa, helpodd y cwrs i mi addasu i'm ffordd newydd o fyw</i>
Cefnogi fy ngrŵp cymunedol	23	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gan nad oes gennyflawer o ffrindiau ac mae'r project hwn yn rhoi cwmni, cyngor a chymorth i mi</i> • <i>Fy helpu i gyfathrebu a chwrdd â phobl eraill</i>
Cyfleoedd gwirfoddoli/ credydau amser	19	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Annog fy rheulu cyfan i helpu i gadw'r ardal yn lân ac yn ddi-sbwriel</i> • <i>Helpu i fagu hyder, meithrin dealltwriaeth a dysgu sgiliau newydd.</i> • <i>Teimlo'n dda i helpu eraill</i> • <i>Nid yn unig y mae wedi fy helpu i fagu hyder y gallaf ei gymhwys i fywyd bob dydd, ond mae hefyd wedi rhoi sgiliau a chymorth ychwanegol i mi</i> • <i>Grymuso pobl mewn cymunedau</i>
Gweithgareddau plant a phobl ifanc	15	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Clwb brecwast / gweithgareddau plant</i> • <i>Fy helpu i drwy gyfnod anodd a'm helpu i ystyried fy nyfodol.</i>
Cymorth/Cyngor ar ffordd iachach o fyw	4	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Helpu i fagu hyder, meithrin dealltwriaeth a dysgu sgiliau newydd.</i>
Sylwadau Eraill/Amrywiol	42	<ul style="list-style-type: none"> • <i>Helpodd Cymunedau yn Gyntaf â phob rhan o'm mywyd cymaint â phosibl drwy roi'r cyfleoedd nad oedwn yn gallu eu fforddio.</i> • <i>Mae popeth yr wyf wedi bod yn rhan ohono gyda Cymunedau yn Gyntaf, wedi fy ngalluogi i ddatblygu fel unigolyn a chwrdd â phobl eraill yn fy nghymuned a sefydlu cyfeillgarwch â phobl.</i> • <i>Maen nhw'n deall y bobl leol a materion lleol. Hynod gefnogol ac yn deall anghenion, adnoddau gwych a bydd colled fawr ar ei hôl.</i>

A ellid gwneud unrhyw beth yn well?

Roedd traean o'r ymatebwyr (33%) o'r farn y gallai pethau fod wedi bod yn well.




Hefyd, rhoddodd pum deg chwech o ymatebwyr rywfaint o eglurhad o'r hyn yr oeddent o'r farn y gallai fod wedi'i wella.

Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiynau, ond gellid eu priodoli'n fras i'r tair thema ganlynol: Mynediad, Trefnu a Chanlyniadau.

- a) **Mynediad** – Gwnaethpwyd sylwadau yngylch y ffaith bod unigolion wedi'i chael hi'n anodd cael mynediad at projectau oherwydd bod llawer ohonynt mewn ardaloedd daearyddol penodol. Yn yr un modd, teimlwyd bod cyfleoedd wedi'u targedu at ddemograffeg benodol e.e. pobl hŷn yn hytrach na bod yn agored i'r rhai hynny â'r angen mwyaf. Roedd sylwadau'n cynnwys: "*Nid oedd y bobl iawn yn ymgymryd â'r gweithgareddau – roeddent yn llawn graddedigion a phensiynwyr*"
- b) **Trefnu** – Roedd rhai yn ystyried bod agweddau ar y gwasanaethau presennol wedi'u rheoli'n wael gydag amseroedd aros hir, biwrocratiaeth a diffyg cyfathrebu i gyd wedi'u crybwyll gan y rhai hynny sydd wedi cymryd rhan mewn projectau. Nododd un ymatebwr, "nid oedd unrhyw un yn gwybod beth oedd yn digwydd".
- c) **Canlyniadau** – Roedd diben y projectau unigol wedi peri dryswch i rai o'r bobl hynny a gymerodd ran. Dywedodd un cyfranogwr ei bod yn ymddangos 'nad oedd canlyniadau clir', er bod eraill wedi dweud bod "projectau'n canolbwyntio ar gyflawniadau tymor byr" ac y "gellid gwario arian yn fwy doeth o lawer ar ragleni ymyrraeth gynnar".

Ydych chi'n meddwl y bydd unrhyw fylchau ar ôl i Gymunedau yn Gyntaf gau?

Roedd cant tri deg pump neu 63% o'r ymatebwyr hynny a fu'n rhan o proiect neu weithgaredd Cymunedau yn Gyntaf o'r blaen, o'r farn y byddai bylchau ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.



Aeth cant a phedwar o ymatebwyr ymlaen i egluro beth yn eu barn nhw fyddai'r bylchau hynny a rhannu unrhyw syniadau a oedd ganddynt ar sut y gellid llenwi'r bylchau hynny.

Roedd yn bosibl categorieddio'r pryderon a godwyd i gasgliad bach o themâu. Y rhai mwyaf cyffredin a grybwyllyd oedd:

- a) Cyfleoedd ar gyfer Gwirfoddoli/Hyfforddi a Chyflogaeth.
- b) Colli cyfranogiad cymunedol a chyfleoedd ymgysylltu sydd o fudd i iechyd a lles, magu hyder a lleihau allgau cymdeithasol.
- c) Colli gwybodaeth a rhwydweithiau lleol.
- d) Gweithgareddau/cymorth i blant, pobl ifanc a rhieni

Categorïwyd yn themâu dros y ddalen y sylwadau pellach ar sut y gellid llenwi'r bylchau:

Cyfleoedd/Llwybrau i Ddysgu/Hyfforddi a Chyflogaeth	39	<ul style="list-style-type: none"> Pe na bai hyfforddiant fel hyn, ni fyddwn wedi cael y cyfle i astudio cwrs cymunedol yn Tai Taf a arweiniodd at le yn y brifysgol a derbyn y wobr astudiaeth gyntaf ym Mhrifysgol Ffetropolitan Caerdydd, sydd ar gyfer pobl o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn unig. Cymorth â Saesneg fel Iaith Ychwanegol Bydd bob amser angen am hyfforddiant ar lefel sylfaenol y mae cyflogwyr ei eisbau, ond nad ydynt yn fodlon talu am y costau hyfforddi. Os gall eich sefydliad gael cyflogwyr i alluogi cynnal cwrs hyfforddi ar eu safle sy'n berthnasol i unrhyw swyddi gwag y gall fod ganddynt, byddai hynny yn rhoi cyfle i chi greu cysylltiadau a byddech chi hefyd yn cael syniad gwell o anghenion hyfforddiant y cymunedau busnes yn gyffredinol. Diffyg cefnogaeth ar gyfer addysg ar ôl ysgol. Cymorth gyda hyfforddiant ac yn y pen draw helpu'r gymuned i wella. Bydd rhieni a phlant yn colli cyfle i gymryd rhan yn addysg eu plentyn.
Iechyd a Llesiant yn cynnwys: Cymorth Iechyd Meddwl, briffio, rhwngweithio cymdeithasol.	35	<ul style="list-style-type: none"> Rhoddodd Cymunedau yn Gyntaf lawer o gymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Hebdo gallent golli'r ymdeimlad o berthyn. Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi fy helpu gyda'm lles meddyliol, fy ysgogi i fentro allan o'r tŷ a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Ni fydd gennyl unrhyw le agos i fynd iddo gan na allaf gerdded yn bell am fod gennyl anawsterau dysgu ac anabledd. Angen cadw cyfleoedd ar gyfer cymdeithas cymunedol. Cyflogi pobl sydd wedi'u dynodi ac sy'n cael eu monitro i ofalu am iechyd a lles pobl hŷn.
Colli gwybodaeth leol/colli ffynonellau gwybodaeth a rhwydweithiau cymorth.	29	<ul style="list-style-type: none"> Roeddent yn gweithio allan yn y gymuned ac efallai na chyflawnir hyn â chymorth gan hybiau yn unig, a allai fod yn bell i bobl deithio iddynt. Roeddent yn gwrandio ar dymuniadau'r gymuned ac yn addasu eu gwasanaethau i fodloni anghenion pobl yn hytrach na cheisio bod yn addas i bawb. Perygl o golli gwybodaeth a phrofiad uniongyrchol a chleientiaid yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau canolog Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gweithredu fel rhwydwaith eang o wasanaethau ar gyfer aelodau o'r gymuned, gan gynnig cyngor, cymorth a chyfarwyddiadau i sefydliadau /gwasanaethau defnyddiol eraill, yn ogystal â gweithredu fel rhwydwaith ar gyfer sefydliadau yn eu hawl eu hun i gael mynediad at wasanaethau ei gilydd. Mae gormod o fylchau i'w crybwylly. Maent yn cynnwys bod yn bwynt cyswllt rhwng pobl a gwasanaethau, cefnogi â marchnata a hysbysebu.
Ymgysylltu cymunedol/Cyfran ogiad/Gwirfoddoli	10	<ul style="list-style-type: none"> Gweithgareddau datblygu cymunedol nad ydynt yn berthnasol i waith ond sydd yn bwysig ar gyfer iechyd a lles. Cyfleoedd i drigolion gwrrdd, gwirfoddoli, datblygu a rhannu sgiliau. Gan ddibynnu ar y trefniadau pontio, gellid colli gwybodaeth leol a'r berthynas o ymddiriedaeth Llai o gyfranogiad cymunedol Cysylltiadau cymunedol. Mae digwyddiadau cymunedol yn gwella'r gymuned Grwpiau cymunedol wedi'u sefydli i sicrhau cyllid. Rydym yn gofieithio y bydd Credydau Amser yn parhau i gefnogi grwpiau cymunedol sy'n gwirfoddoli.
Cyllido	8	<ul style="list-style-type: none"> Bydd bylchau oherwydd y gostyngiad mewn cyllid ond mae'n anodd eu nodi ar hyn o bryd. Mae'n debygol mai'r broblem fwyaf fydd cael pobl i fynychu gweithgareddau neu fentrau. Bwlch mewn cyllid.
Amrywiol:	18	<ul style="list-style-type: none"> Bydd llai o fynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau gwrrthlodi yn ogystal â chysylltiadau â darpariaeth briff ffrwd a hwylusir gan y project Nid oedd Cymunedau yn Gyntaf ar gael mewn rhai ardaloedd ac yn dda i ddim mewn ardaloedd eraill. Nid oedd digon o atebolrwydd am eiriau. Project un-gyfarwyddyd yw'r ffordd ymlaen. Mynediad lleol at projectau ond rwy'n credu y bydd rhesymoli yn helpu i leihau costau wrth barhau i ddarparu mynediad at gymorth sydd ei angen.


Rydym ni'n dymuno gwybod sut yr hoffech chi gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrojectau lleol a sut y gallech chi ddylanwadu a siapio'r gymuned yr ydych chi'n byw ynndi.

Ydych chi o'r farn bod gennych chi fewnbwn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi a'ch cymuned leol?

Roedd mwy na dau o bob 5 ymatebwr (43%) o'r farn nad oedd ganddynt fewnbwn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymuned leol o'i gymharu â (33%) o ymatebwyr oedd yn credu bod ganddynt fewnbwn a (24%) nad oedd yn gwybod.

Ydych chi'n credu bod gennych chi fewnbwn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi a'ch cymuned leol?

Sylfaen: 215




Wedi'u rhestru isod y mae nifer o ffyrdd y gallech chi gael mewnbwn yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eich cymuned.

Nododd dau o bob 5 ymatebwr fod ganddynt fewnbwn ar hyn o bryd drwy gymryd rhan mewn arolygon neu holiaduron. Cafodd 27% yr wybodaeth ddiweddaraf drwy ddarllen cylchlythyron/erthyglau ac mae 18% ar hyn o bryd yn cymryd rhan drwy'r cyfyngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook.


Drwy gyfrwng arolygon, cylchlythyron ac erthyglau yr oedd pobl eisiau cymryd rhan a chael gwybodaeth yn y dyfodol, fodd bynnag, nodwyd diddordeb hefyd mewn rhagor o ymgysylltu wyneb yn wyneb megis digwyddiadau cymunedol, gweithdai ac eistedd ar banel.

Sut ydych chi'n cymryd rhan ar hyn o bryd, a sut yr hoffech chi gymryd rhan yn y dyfodol?

Sylfaen: 1,596



Sut ydych chi'n cymryd rhan yn eich cymuned ar hyn o bryd, a sut hoffech gymryd rhan yn y dyfodol?



Rhowch wybod i ni os oes unrhyw ffordd arall yr hoffech chi gymryd rhan?

Darparodd cyfanswm o 39 o ymatebwyr amrywiaeth o enghreifftiau ychwanegol ynghylch sut yr hoffent fod yn rhan. Dyma ddetholiad o'r sylwadau a wnaed:

"Projectau amgylcheddol megis codi afonydd i'r arwyneb, cynlluniau lliniaru llifogydd natur, projectau peillio, plannu coed a choridorau natur."

"Byddaf yn ymddeol y flwyddyn nesaf ond rwy'n ystyried cynnig fy ngwasanaethau i Ysbyty'r Waun fel ymwelydd gwirfoddol yn yr Adran Gaplaniaeth."

"Helpu ffaoduriaid a phobl eraill nad ydynt o'r DU i setlo mewn gwlad newydd."

"Rwy'n athro a charwn helpu â llythrennedd/rhifedd/sgilau TGCh. Rwyf wedi ceisio dod o hyd i gyfleoedd i wirfoddoli, foddy bynnag, mae'n ymddangos bod yr holl gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli yn ystod y dydd pan wyf yn gweithio."

A oes rhagor o sylwadau yr hoffech eu gwneud?

Cafwyd cyfanswm o 124 o sylwadau, a'r rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r gwaith a wnaed gan Cymunedau yn Gyntaf a'r cymorth a ddarparwyd i'r unigolyn hynny.

Bylchau	Rhif	Sylwadau
Mae angen Cymunedau yn Gyntaf (neu debyg)	26	<ul style="list-style-type: none"> <i>Mae'n ofnadwy bod Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben ac rwy'n credu bod y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y cymunedau hyn am amser hir i ddod.</i> <i>Mae'n siomedig mai dim ond ACE sydd wedi'i sefydlu ac yn gallu parhau ar ôl i Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben yng Nghaerdydd. Byddech yn meddwl, ar ôl yr holl flynyddoedd, y byddai llawer o grwpiau wedi'u sefydlu'n barod i barhau ar ôl Cymunedau yn Gyntaf. Siomedig iawn.</i> <i>Roedd popeth ynghlwm wrth Cymunedau yn Gyntaf yn bwysig ac wrth gwrs mae'r pethau yn ymwneud â chyflodaeth yn bwysig, ond yr holl bethau datblygu cymunedol eraill maent yn eu gwneud sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y gymuned gan eu bod wedi grymuso pobl i gredu ynddynt eu hunain a chreu grwpiau i roi sgliliau meddal a lleoedd i bobl fynd. Heb y cymorth hwn, ni fyddai pethau fel hyn yn digwydd. Rydych chi angen gwasanaeth sy'n darparu'r math hwn o gymorth i'r gymuned, fel arall nid yw grwpiau'n ddigon hyderus i ddatblygu eu syniadau.</i>
Gwerthfawrogi gwasanaethau gan Hybiau	15	<ul style="list-style-type: none"> <i>Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Hyb yn bwysig iawn ac yn fy helpu â chwestiynau a phroblemau sydd gennyr ynghyllch cyflodaeth a chymorth.</i> <i>Credaf ei bod yn bwysig iawn i gael yr Hyb gan fod yr hyn a wneir yno yn ddefnyddiol iawn</i> <i>Mae Hybiau'n ased amhrisiadwy i'r gymuned.</i>
Methu gwirfoddoli	14	<ul style="list-style-type: none"> <i>Rwy'n athro yn Nhrelái, a charwn wirfoddoli a threulio mwy o amser yn helpu fy nghymuned.</i> <i>Fodd bynnag, rwy'n gweithio 60+ o oriau'r wythnos a phrin y mae gennyr amser i'w dreulio â'm teulu.</i> <i>Yn ein 80au, felly rydym yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau</i> <i>Rwy'n brysur iawn gyda chymuned yr eglwys ac yn cefnogi fy nheulu yn ymarferol, yn emosiynol ac yn ariannol.</i> <i>Nid oes gennyr amser sbâr nac egni ar gyfer y gymuned hefyd.</i>
Angen cymorth ar gyfer grwpiau penodol	12	<ul style="list-style-type: none"> <i>Ni chrybwylir ysgolion na thargedu disgylion sy'n cyrraedd oedran cyflodaeth – yn enwedig y rhai hynny nad ydynt yn mynd i'r Brifysgol.</i> <i>Yr hyn yr ydw i'n ei alw'r "50% arall" Sef y 50% yr ydym ni oll yn dibynnu arno!</i> <i>Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Gogledd Caerdydd wedi'i esgeuluso'n llwyr ac wedi colli llawer o'i raglen gymunedol.</i> <i>Rwyf wedi bod yn ddi-waith er nifer o flynyddoedd ac yn ei chael hi'n anodd cael gafaol ar unrhyw gymorth oherwydd fy nghod post. Ni cheir unrhyw gyrsiau mynediad i waith yng Ngogledd Caerdydd. Dros y flwyddyn diwethaf bu'n rhaid i mi deithio i Laneirwg i wneud cwrs cyfrifiadurol a dal dau fws o Lanisien.</i> <i>O'r farn nad yw gofalwyr yn yr ardal yn cael eu hystyried</i>
Gwnaeth Cymunedau yn Gyntaf fy helpu i	9	<ul style="list-style-type: none"> <i>Mae Clybiau Swyddi yn fy helpu i llawer</i> <i>Heb Cymunedau yn Gyntaf, ni fyddwn yn gwneud gystal ag ydwyf heddiw.</i> <i>Fe wnaeth fy helpu gydag iechyd meddwl, materion ariannol ac mae yno fel ffrind pan fo angen.</i> <i>Rwy'n falch o Cymunedau yn Gyntaf gan fy mod wedi ystyried mynychu cyrsiau fy hun ac mae'n rhy ddrud ac nid oes gennyr unrhyw gymorth, ond drwy Cymunedau yn Gyntaf, mae gwybod bod rhywun i helpu os oes angen wedi rhoi mwy o hyder i mi</i>
Angen cydgysylltu	8	<ul style="list-style-type: none"> <i>Rwy'n credu bod angen eglurder, ni allwch gael pobl yn cynnal eu grwpiau eu hunain heb fod y llywodraeth yn gyfrifol</i> <i>Rwy'n credu y byddai un gwasanaeth yn well, a chael mwy o gwsmeriaid i ddefnyddio ein gwasanaeth. Mae dyblygu gwasanaethau yn drysu pethau ar adegau</i> <i>Credaf ei bod yn hanfodol trefnu'r gweithgareddau hyn fel pe bai'n rhedeg busnes drwy gael arweinyddiaeth, cyfathrebu a rheolaeth glir.</i>
Parhau i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli	7	<ul style="list-style-type: none"> <i>A wnewch chi barhau i ddatblygu'r cynllun Credydau Amser?</i> <i>Mae canolbwntio ar aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed yn flaenorïaeth, fodd bynnag, mae cynnwys aelodau o'r gymuned a allai fod yn gweithio llawn amser neu sy'n deul i rhiant sengl yn hanfodol wrth feithrin perthynas werthfawr mewn cymunedau.</i>


		<ul style="list-style-type: none"> Mwynheais fy amser yn gwirfoddoli i Gyngor Caerdydd a dylid rhoi cyfle i bobl wella eu sgiliau
Ni ddylai gwirfoddolwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb	7	<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n gwerthfawrogi bod y cyllid newydd wedi'i leihau, ond byddwn yn gobeithio nad yw eich cynigion yn dibynnu ar ddefnyddio gwirfoddolwyr yn hytrach na phobl broffesiynol sydd â'r hyfforddiant cywir. Os ydym yn ystyried ffyrdd o gael pobl yn ôl i waith, yna mae'n eironig disgwyl i wirfoddolwyr gymryd lle gweithwyr proffesiynol cyflogedig. Codi sbwriel a garddio yw'r pethau rwy'n talu'r dreth gyngor ar eu cyfer. Rwy'n gobeithio na throsglwyddir y gwasanaethau presennol i'r sector gwirfoddol i sicrhau ansawdd. Dylai gwirfoddoli fod yn union hynny, gwirfoddol...nid yw'n iawn dibynnu ar wirfoddolwyr i sicrhau bod ein cymunedau'n gweithredu yn y modd cywir. Yn sicr, mae'n rhaid bod cyfran o'n tâl cymunedol yn talu am hwn fel gwasanaeth sydd ar gael i bawb, ac am ddim i'w ddefnyddio.
Mae rhoi hyfforddiant/addysg yn bwysig	6	<ul style="list-style-type: none"> Prin y crybwyllyd addysg fel sylfaen ar gyfer gwellhad dynol; gan gynnwys eich gyrrfa eich hun (a'ch bywyd...). Mae gennym sefydliadau addysg gwych sy'n arwain y byd o amgylch Caerdydd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt nid er elw. Gnewch fwy ohonynt Angen cynnig mwy o gyrsiau bob mis Mae Cymru angen swyddi da sy'n talu'n dda neu y bydd ei phobl ifanc orau yn gadael. Mae hefyd angen gwella cyrhaeddiad a hyfforddiant addysgol yn sylwedol a pharhau i gymryd rhan mewn profion Pisa.
Eisiau gwella fy Saesneg	5	<ul style="list-style-type: none"> Gwella fy Saesneg i fynd i'r Brifysgol Rwyf eisiau gwella fy Saesneg i gefnogi fy rheulu
Blaenorhaethu gwario arian cyhoeddus	5	<ul style="list-style-type: none"> Mynd i'r afael â throseddu a'i achosion megis bod yn gaeth i gyffuriau a phuteindra. Dylai cyllid fod ar gael ar gyfer astudio rhan amser yn y tymor hwy h.y., astudiaethau cwnsela. <p>Cymorth i bobl ddatblygu yn eu gyrfaoedd. Mwy o dai fforddiadwy a llai o lety myfyrwyr ar draws y ddinas. Gweithgareddau meithrin cymunedau</p>
Meithrin/Cryfhau cymunedau	4	<ul style="list-style-type: none"> Yffordd orau a'r unig ffordd o leihau thodi yw sicrhau cyflogaeth yn yr ardal oedd hynny, sicrhau bod cyflogaeth yn talu'n well na budd-daliadau, a chael gwared ar ddylanwadau gwael a negyddol o'r cymunedau hynny (leihau troseddu, y defnydd o gyffuriau a throseddwyr oddi ar y strydoedd). Nid yw'n hawdd, ond mae bob dim arall, er eu bod â'r bwriad gorau, yn tueddu i fod yn ofer.
Grymuso / magu hyder	3	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r cyrsiau hyn yn ffordd wych o helpu pobl fel fi fy hun i fagu hyder a theimlo'n rhan o gymuned. Edrychaf ymlaen at beth a ddaw yn y dyfodol.
Gweithio gyda busnesau/sefydliadau	3	<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r cyngor gydweithio a cheisio barn yn uniongyrchol gan hyfforddwr swyddi'r Adran Gwaith a Phensiynau (ds: nid rheolwyr) gan fod gan y cyfleoedd hyn brofiad uniongyrchol o ba gymorth a chyfleoedd swyddi y mae ceiswyr gwaith eu hangen i'w helpu i mewn i waith. Cyfleoedd i gysylltu busnes â darpar gyfleoedd
Yn erbyn Cymunedau yn Gyntaf	2	<ul style="list-style-type: none"> Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn wastraff arian llwyr a dylai projectau ond gael eu hariannu os ydynt yn arwain at gyflogaeth, nid dim ond cyrsiau hamdden ar gyfer y rhai mwy breintiedig. Yn llawn Menywod o Landaf sy'n Ciniawa
Cytuno â'r cynnig	2	<ul style="list-style-type: none"> Rwy'n cytuno â'r cynnig Byddai'n dda iawn uno gwasanaethau yn ôl i waith gyda chyllid y cyngor a'u lleoli yn yr hybiau a'r llyfrgelloedd (nid dim ond yn yr hen ardal oedd Cymunedau yn Gyntaf). Mae angen amrywiaeth eang o "wirfoddolwyr" gydag ystod o sgiliau ac mae angen cymorth/gwaith trefnu cyflogedig llawn amser megis trefnwy'r cymunedol
Amrywiol	23	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r cynllun arfaethedig mewn perygl o greu haen arall eto o fiwrocratiaeth a rheolaeth, ac ni fydd yn hunan-gynaliadwy Does unman y gallaf fynd ar amseroedd cyfleus o'r dydd na'r nos y gallaf fod yn rhan o rywbeth a chyfrannu. Mae llawer o weithgareddau cymunedol yn cael eu cynnal yn rhy gynnar neu'n rhy hwyr i mi. Hefyd, nid wyf yn gyrru ac mae teithio o gwmpas yn y gaeaf yn y tywyllwch yn anodd, felly rwyf angen gwasanaeth hyblyg a chanolfan sefydlog.

Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr nodi meysydd yr hoffent dderbyn rhagor o wybodaeth a gofynnwyd iddynt adael manylion cyswllt. Mynegwyd y lefel uchaf o ddiddordeb tuag at siapio gwasanaethau a dylanwadu ar benderfyniadau.

	Nifer a nododd yr hoffent ragor o wybodaeth	Nifer a nododd fanylion cyswllt
Hoffwn gymorth i ddechrau gweithio eto	125	86
Byddai diddordeb gennyf mewn siapio a dylanwadu ar benderfyniadau	171	135
Byddai diddordeb gennyf mewn Cyfleoedd Gwirfoddoli yn fy nghymuned leol	155	128

Lleoliad

Rhoddodd cyfanswm o 868 o ymatebwyr eu cod post, a ddangosir ar y map isod. Mae'r map hefyd yn tynnu sylw at ymwybyddiaeth o Cymunedau yn Gyntaf ymhliith ymatebwyr. Roedd ymwybyddiaeth o Cymunedau yn Gyntaf wedi'i lledaenu'n gyfartal ledled y ddinas er gwaethaf gweithgareddau ond yn bresennol mewn ardaloedd penodol.



Demograffeg Ymatebwyr

Rhyw

	Nifer	%
Benyw	534	56.1
Gwryw	406	42.6
Arall	2	0.2
Mae'n well gennyf beidio â dweud	10	1.1
Cyfanswm	952	100.0

Oedran

	Nifer	%
Dan 16	3	0.3
16-24	54	5.6
25-34	207	21.5
35-44	192	19.9
45-54	203	21.1
55-64	193	20.0
65-74	90	9.3
75+	21	2.2
Cyfanswm	963	100.0

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

	Nifer	%
Gweithio llawn amser (30+ awr yr wythnos)	372	38.4
Gweithio rhan amser (llai na 30 awr yr wythnos)	149	15.4
Wedi ymddeol yn gyfan gwbl o weithio	132	13.6
Di-waith – Wedi cofrestru fel rhywun sy'n ceisio gwaith	98	10.1
Di-waith – heb gofrestru ond yn ceisio gwaith	54	5.6
Gofalu am blentyn neu oedolyn	35	3.6
Salwch parhaol neu berson anabl	27	2.8
Addysg llawn amser	26	2.7
Gofalu am eich cartref	15	1.5
Ar gcontract dim oriau	12	1.2
Yn rhan o gynllun hyfforddi gan y llywodraeth	5	0.5
Arall	43	4.4
Cyfanswm	968	100.0

Ydych chi'n berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	109	11.4
Nac ydw	805	83.9
Mae'n well gennylf beidio â dweud	45	4.7
Cyfanswm	959	100.0

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

	Nifer	%
Byddar / wedi'ch byddaru/ trwm eich clyw	14	13.6
Anawsterau lechyd Meddwl	37	35.9
Nam / anawsterau dysgu	15	14.6
Nam ar y golwg	7	6.8
Defnyddiwr cadair olwyn	3	2.9
Nam symudedd	30	29.1
Salwch hirdymor neu gyflwr iechyd (e.e. cancer, HIV, diabetes, neu asthma)	42	40.8
Mae'n well gennylf beidio â dweud	4	3.9
Arall	13	12.6
Cyfanswm	103	100.0

Beth yw eich grŵp ethnig?

	Nifer	%
Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig	742	77.4
Gwyn - Gwyddelig	10	1.0
Gwyn -- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	5	0.5
Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch)	44	4.6
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiäidd	18	1.9
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Africanaidd	7	0.7
Grwpiau Cymysg / Aml Ethnig – Gwyn ac Asiaidd	7	0.7
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig – Unrhyw un arall (nodwch)	2	0.2
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd	7	0.7
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd	15	1.6
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd	6	0.6
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	10	1.0
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig – Unrhyw un arall (nodwch)	3	0.3
Du/Africanaidd/Caribiäidd/Du Prydeinig - Africanaidd	29	3.0
Du/Africanaidd/Caribiäidd/Du Prydeinig - Caribiäidd	5	0.5
Du/Africanaidd/Caribiäidd/Du Prydeinig – Unrhyw un arall (nodwch)	3	0.3
Arab	8	0.8
Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch)	10	1.0
Mae'n well gennylf beidio â dweud	28	2.9
Cyfanswm	959	100.0

Helpu Pobl i Ddod o Hyd i Waith a Meithrin Cymunedau Gwydn